

Cofnodion y **Pwyllgor Cefnogaeth Covid-19 o bell**, a gynhaliwyd trwy Zoom ar **Ddydd Mawrth 10 Awst 2021** am 12 o'r gloch.

YN BRESENNOL: Eu Deilyngdod Y Maer Cyng Owen Hurcum (Cadeirydd), Y Dirprwy Faer Gwynant Roberts, Cyng Les Day

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig

i/21 YMDDIHEURIADAU

Dim.

ii/21 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

iii/21 CEISIADAU GRANT

i. Food Share

Penderfynwyd i roi £500 i Food Share (Gorffennaf 2021)

ii. Coed Mawr

Ni wnaeth y cais cyrraedd y cyfarfod mewn pryd. Cynigwyd fod y Maer a'r Cyfarwyddwr Dinesig yn derbyn pwerau i weithredu a chymeradwyo cais Coed Mawr yn dilyn y cyfarfod a chyn gynted a phosib.

PENDERFYNWYD: Rhoddwyd pwerau i weithredu i'r Maer a'r Cyfarwyddwr Dinesig i gymeradwyo cais Coed Mawr yn dilyn y cyfarfod.

iv/21 DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

Soniodd y Cyfarwyddwr Dinesig am y cais llwyddiannus Grant EUT Gwynedd a sut mae'r Pwyllgor yn bwriadu defnyddio'r £7,500. Mae'r grant yn cryfhau gyllideb pwyllgor Covid-19, a bydd angen rhagor o drafodaethau ar y ffordd orau i ddefnyddio'r grant er mwyn gwneud banciau bwyd Bangor yn fwy cynaliadwy. Cynigwyd fod y gyllideb Covid-19 yn aros fel y mae, er mwyn cefnogi banciau bwyd Bangor gymaint a phosib dros y misoedd nesaf. **PENDERFYNWYD:** I gadw'r gyllideb Covid-19 presennol.

v/21 UNRHYW FUSNES ARALL

Dim.

vi/21 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

7fed Medi am 12pm.

Gorffennodd y cyfarfod am 12.23 pm